O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

## 2017 Rhif 938 (Cy. 231)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiadau Cyflymder Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Medi 2017* |
| *Yn dod i rym* | *18 Medi 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Medi 2017. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiadau Cyflymder Dros Dro) 2017.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn aferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 18 Medi 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y drafordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru wrth Gyffordd 34 (Meisgyn) yn Siroedd Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r drafordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 neu 50 milltir yr awr ar y darnau o’r drafordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy’n 1.99 metr o led neu’n lletach fynd ar y darn o’r drafordd a bennir yn Atodlen 3.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Dirymu**

**7.** Mae Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg) (Gwahardd Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 MYA) 2017(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Medi 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(2) O.S. 2017/278

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Meisgyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y gyffordd honno.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Meisgyn).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Meisgyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 (Pencoed).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34 (Meisgyn).

## ATODLEN 2

### Terfyn cyflymder 40 mya neu 50 mya dros dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain sy'n ymestyn o drosbont y Groes-faen sydd 1 cilomedr i'r dwyrain o Gyffordd 34 (Meisgyn) hyd at bwynt 500 o fetrau i'r gorllewin o danbont Hensol Road.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 34 (Meisgyn).

## ATODLEN 3

### Gwahardd cerbydau llydan dros 1.99 metr o led dros dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin yn Lôn 3 sy'n ymestyn o drosbont y Groes-faen sydd 1 cilomedr i'r dwyrain o Gyffordd 34 (Meisgyn) hyd at bwynt 500 o fetrau i'r gorllewin o danbont Hensol Road.